# Cath Elmer

BSc Mathemateg
Caerdydd- 07940 987 654- elmerc@caerdydd.ac.uk

## Proffil Personol

Gyda hanes cryf o fod yn berson hunan-gymhellol, cydwybodol, ac un sy'n gallu datrys problemau yn naturiol, rwy'n ymfalchïo yn fy llwyddiannau academaidd rhagorol. A minnau wedi dod yn berson mwy hunan-hyderus drwy weithio gyda chwsmeriaid yn fy swydd ran-amser mewn lletygarwch, yn ogystal â rolau gwirfoddoli eraill, rwy bellach yn chwilio am gyfle ar gyfer fy Mlwyddyn ar Leoliad Proffesiynol fyddai'n caniatáu imi gyfrannu at dîm deinameg yn y sector Nwyddau Defnyddiwr sy'n Symud yn Gyflym (FMCG).

## Addysg

**BSc Mathemateg (gyda Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol),** Prifysgol Caerdydd **Medi 2021-Mai 2025**

- Wedi'i hachredu gan y Sefydliad Mathemateg
- Marc Canran fy Ail Flwyddyn: 72%
- Modiwlau perthnasol: [ychwanegu manylion]
- Ymhlith y sgiliau a ddatblygwyd mae: Sgiliau dadansoddi, Datrys problemau, Gwydnwch, Rhaglennu (gan gynnwys Python)

**Safon Uwch,** Coleg Chweched Dosbarth, Caerdydd **Medi 2019-Mehefin 2021**

- Mathemateg A, Mathemateg Bellach A, Cemeg B, Uwch Gyfrannol Hanes C

**TGAU,** Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd **Medi 2017- Mai 2019**

- 10 x gradd 6-9 (cyfateb â A/B) gan gynnwys Cymraeg a Ffrangeg.

## Sgiliau Perthnasol

- **Meddwl Masnachol**: Drwy fy ymchwil a'm diddordebau annibynnol, rwy wedi datblygu dealltwriaeth gref o arian a chraffter busnes cryf. Rwy'n darllen *The Financial Times* yn rheolaidd, ac rwy hefyd wedi tanysgrifio i *Financial Matters,* sy'n anfon y newyddion diweddaraf ata' i bob dydd.
- **Llawn cymhelliant ac uchelgeisiol:** Gydag awydd i ddysgu mwy yn y gweithle, rwy wedi dechrau dysgu sgiliau ychwanegol megis sgiliau Excel uwch a meddalwedd cyfrifyddu megis Xero.
- **Y gallu i addasu i newid:** Mae bod yn hyblyg i anghenion busnes yn sgil gwnes i ei datblygu yn ystod fy 'interniaeth ar y campws', gan addasu'r briff yn ôl gofynion yr ymchwil.
- **Llygad graff am fanylder:** Gan fy mod i'n chwaraewr gwyddbwyll brwd, rwy'n gallu canolbwyntio am gyfnod hir heb golli ffocws. Mae fy sgiliau rhaglennu hefyd wedi rhoi min ar fy ngallu i adnabod gwallau yn gyflym ac ymateb yn effeithiol.

## Profiad yn y diwydiant

**Intern yn Actuarial** (Budd-daliadau ymddeol), Towers Watson, Manceinion **Mehefin-Gorffennaf 2022**

- Dysgais i sut i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo, cynnyrch misol ac addasiadau gwerth y farchnad.

- Wedi ymgymryd â phrosiect, o fewn terfynau amser llym, ac wedi ymchwilio i ailgynllunio buddion pensiwn, gan ddefnyddio Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) i efelychu senarios.
- Wedi cael canmoliaeth gan uwch-bartner am fy sgiliau cyflwyno a'm gallu i ateb cwestiynau anodd dan bwysau.

## Hanes Cyflogaeth

**Cynorthwyydd Caffi**, Roath Park Coffee House, Caerdydd **Mehefin 2023 - presennol**

- Wedi cynnig gwasanaeth o safon i gwsmeriaid, gan roi gwell profiad iddyn nhw a sicrhau boddhad.
- Wedi cydweithio â chydweithwyr i gynnal gweithrediadau mewn modd effeithlon, a chefnogi ein gilydd yn ystod cyfnodau prysur.
- Wedi datblygu sgiliau cyfathrebu cryf drwy ryngweithio â chwsmeriaid amrywiol ac aelodau'r tîm.
- Wedi rheoli sawl tasg ar yr un pryd mewn gweithle prysur dros ben, gan sicrhau gwasanaeth amserol.

## Gwirfoddoli

**Myfyriwr sy'n Mentora,** Prifysgol Caerdydd **Medi 2022-Mehefin 2023**

- Roedd cael hyfforddiant wedi datblygu fy sgiliau yn effeithiol drwy gefnogi Glasfyfyrwyr gyda'r broses o bontio i'r brifysgol. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd yn rheolaidd â mentoreion a'u cefnogi gydag ymholiadau a'u helpu i addasu i fywyd myfyrwyr yn effeithiol.

**Llysgennad STEM**, Prosiect Gwyddoniaeth Ysgol Uwchradd, Casnewydd **Mai-Mehefin 2021**

- Wedi cyflwyno i ddosbarthiadau o blant ysgol gynradd a'r oedolion a fu yn eu cwmni ynghylch y mwynhad a'r manteision sydd ynghlwm wrth astudio Mathemateg. Gwella fy ngallu i fynegi termau mathemategol yn effeithiol i gynulleidfa o alluoedd amrywiol.

## Diddordebau allgyrsiol

Rwy'n deithiwr brwd ac wedi mwynhau cyfnodau o deithio'n annibynnol ar draws Dwyrain Ewrop. A minnau'n aelod o'r Gymdeithas Dadlau, rwy'n mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau a digwyddiadau. Yn ddiweddar, gwnes i drefnu noson yng nghwmni siaradwyr gwadd o'r diwydiant i gyflwyno ar dechnegau o siarad yn berswadiol.

***Geirdaon ar gael ar gais***